

YDYCH CHI'N GALLU FFORDDIO COLLI EICH BLAENDAL CYFAN NEU ARIAN PWRCASU?

TWYLL TRAWSGLUDO

Mae troseddwr yn targedu pryniannau eiddo yn weithredol, â'r nod o'ch twyllo i drawsgludo blaendal eich tŷ a/neu'r balans arian pwrcasu iddynt.

Mae'r cynlluniau hyn yn gallu bod yn soffistigedig iawn, a bron bob amser yn cynnwys y troseddwr yn esgus eu bod yn gyfreithiwr i chi i'ch twyllo i wario'ch taliad i gyfrif maen nhw'n ei reoli.

Byddwch yn eithriadol o wylidwrus os yw'n ymddangos bod unrhyw newid i fanylion talu, a gwiriwch yn drwyadl trwy alw'ch cyfreithiwr cyn i chi drosglwyddo'ch arian, gan fod negeseuon e-bost yn gallu cael eu rhyng-gipio neu eu dargyfeirio.

Gallwch brofi'r cyfrif trwy anfon swm bach i fanylion y cyfrif a ddarparwyd a gwirio bod eich cyfreithiwr wedi derbyn hyn cyn trosglwyddo'r holl arian.



**MAE DIODDEFWYR YN GALLU COLLI CANNOEDD
O FILOEDD O BUNNOEDD, AC EFALLAI NA FYDDANT
YN CAEL EU HARIAN YN ÔL BYTH.**

Astudiaeth achos: dioddefwr twyll trawsgludo yn colli £640,000

Cafodd prynwr tŷ ei dwyllo i drosglwyddo dros £640,000 fel rhan o dwyll trawsgludo. Roedd negeseuon e-bost rhwng y prynwr a'i gyfreithiwr wedi cael eu rhyng-gipio gan droseddwr. O ganlyniad, roedd y troseddwr yn gallu casglu'r holl wybodaeth ynglŷn a phryniant y tŷ.

Wedyn defnyddiodd y troseddwr gyfrif e-bost ffug (wedi'i wneud i ymdebygu i un y cyfreithiwr) i ofyn am daliad. Cafodd manylion talu eu darparu ar bapur pennawd y cyfreithwyr trwy'r e-bost ffug, ac roedd y swm y gofynnwyd amdano yn union yr hyn roedd prynwr y tŷ wedi disgwyl ei dalu.

Cafodd y dioddefwr ei hysbysu'n ddiweddarach gan y cyfreithiwr go iawn nad oedd cais wedi cael ei wneud am y taliadau hyn. Ni chafodd y rhan fwyaf o'r arian ei adfer, gan ddileu ecwiti a chynilion y dioddefwr yn gyfan gwbl mwy neu lai, a chan arwain at fethiant ei bryniant. Cafodd y twyll effaith lethol hir dymor ar brynwr y tŷ a'i arian personol.

Sut i ddiogelu eich hun rhag dod yn dioddefwr twyll trawsgludo.

- Ceisiwch fanylion banc gan eich cwmni cyfreithiol naill ai yn y cnawd neu dros y ffôn ar ddechrau'r broses drawsgludo a chytunwch ar fecanwaith cadarn y byddai unrhyw newidiadau cyfreithlon yn digwydd ynddo, megis eu cadarnhau yn y cnawd. Gofynnwch iddynt gadarnhau'r manylion trwy'r post os ydych wedi eu cael yn y cnawd neu dros y ffôn.
- Nid yw cwmnïau cyfreithiol yn newid eu manylion banc yn aml. Os byddwch yn derbyn e-bost neu alwad teleffon sy'n datgan newid yn y manylion banc, cwestiynwch ei ddilysrwydd. Gwiriwch y manylion banc yn uniongyrchol â'CH cyfreithiwr CHI neu rywun blaenllaw yn y cwmni trwy eu galw ar eu rhif teleffon cyhoeddedig, nid yr un a roddir yn yr e-bost yn mynnu taliad. Peidiwch â theimlo o dan bwysau i newid unrhyw fanylion cyn i chi siarad â rhywun blaenllaw o'r cwmni.

- Gosodwch gyfrineiriau cryf ac ar wahân i'ch cyfrifon, a sicrhewch fod gennych feddalwedd gwrth-feirws wedi'i osod ar eich dyfeisiau; mae'r twyllau hyn fel arfer yn dibynnu ar gyfrifon e-bost yn cael eu cyfaddawdu. I greu cyfrinair cryf, dewiswch dri gair ar hap. Gellir ychwanegu rhifau a symbolau o hyd os oes gofyn.
- Osgowch bostio ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch prynu/gwerthu eich tŷ neu gael morgais. Gall twyllwyr gael gafael yn yr wybodaeth hon a, chan wybod bod y cam nesaf yn drafodiad ariannol mawr, ceisio'ch targedu.
- Osgowch ddefnyddio systemau Wi-Fi cyhoeddus neu heb eu diogelu i wirio negeseuon e-bost pan fyddwch yn prynu tŷ. Mae twyllwyr yn gallu hacio i mewn i systemau Wi-Fi bregus yn hawdd.
- Os ydych chi'n gwneud taliad i gyfrif am y tro cyntaf, trosglwyddwch swm bach yn gyntaf ac wedyn gwiriwch â'r cwmni cyfreithiol, gan ddefnyddio manylion cyswllt hysbys, fod y taliad wedi cael ei dderbyn.¹

- Os oes gennych unrhyw amheuaeth am y trafodiad yna peidiwch â throsglwyddo'ch arian hyd eich bod yn fodlon ei fod yn gywir; ydych chi'n gallu fforddio colli'ch blaendal cyfan neu'r holl arian pwrcasu?

Os ydych chi'n amau eich bod wedi bod yn dioddefwr twyll trawsgludo, ar unwaith dylech:

- Gysylltu â'ch banc i roi gwybod iddynt am y gweithgaredd twyllodrus, gan ofyn iddynt gysylltu â'r banc sy'n derbyn i rewi'r arian.
- Cysylltwch ag Action Fraud; adroddwch am amheuaeth o dwyll i Action Fraud trwy eu gwefan: www.actionfraud.police.uk/reporting-fraud-and-cyber-crime neu trwy alw 0300 123 2040.
- Rhybuddiwch eich cyfreithiwr; gallent hwy fod yn cael eu targedu gan droseddwr, sy'n gallu peri risg i gleientiaid eraill.

¹ Twyll - Y Ffeithiau 2021 Yr Arolwg Awdurdodol o Dwyll y Diwydiant Talu, Cyllid y DU